

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 10) 2022**

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn i osod a diwygio'r cyfyngiadau parcio a nodir yn atodlen yn yr Atodlenni isod.
2. Gellir gweld manylion llawn y cynnig, gan gynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig a Chynlluniau Rhif (T/22/35/ON) ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/legalnotices ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF956) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **Dydd Gwener 25 Tachwedd 2022** ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

I'w ychwanegu at atodlen map AX55

Cynnig Gwahardd Aros Ar Unrhyw Adeg

Hayes Road, Y Barri

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â'r fynedfa i'r gylchfan, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am 67.2m, cornel dde-ddwyreiniol y gyffordd â Lôn y Felin Wynt.

Ar ochr y de-ddwyrain, o gornel ogledd-ddwyreiniol y gyffordd â Lôn y Felin Wynt i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 38.5m, cornel dde-orllewinol y gyffordd â Hayes Lane.

Lôn y Felin Wynt, Y Barri

Ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Hayes Road tua'r de-ddwyrain am 16.2m.

Dyddiedig 3 Tachwedd 2022

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA